**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2023 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| Y V Jardine | E T Kirchner | W G Lewis |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Nichola Rogers | Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol, Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, K M Griffiths, S M Jones a/ac C L Philpott

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Monitro Perfformiad**

Rhoddodd Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wybodaeth i'r Panel am yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer mis Ebrill 2023, ac atebodd gwestiynau'r Panel.

Pwyntiau i'w trafod:

- Ym mis Ebrill, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru adolygiad cyflym o amddiffyn plant yn Abertawe. Roedd yr adborth yn gadarnhaol.
- Nododd y Panel fod y niferoedd mewn gofal preswyl wedi cynyddu ychydig. Clywodd y Panel fod hwn yn gysylltiedig â diffyg gofalwyr maeth. Roedd ymgyrch recriwtio ym mis Mai gyda Gofal Maeth Cymru.
- Gofynnodd y Panel am y cynnydd a ddangosir ar y graff ar gyfer pobl a oedd yn mynd i Ganolfannau Cymorth Cynnar ym mis Ebrill 2022. Fe'i hysbyswyd fod hyn o ganlyniad i newid mewn cofnodi rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2022.
- Gofynnodd y Panel a yw'r Tîm Asesu Gofalwyr Annibynnol yn fewnol, ac os felly, sut mae'n annibynnol? Clywodd y Panel fod y tîm yn ystyried y gofalwyr eu hunain yn eu rhinwedd eu hunain, yn lle cynnal asesiad rhiant/plentyn.
- Nododd y Panel y byddai'n pryderu petai rhywun yn mynd yn ôl ar y gofrestr amddiffyn plant lai na flwyddyn ar ôl cael ei dynnu oddi ar y gofrestr. Cytunodd swyddogion i gynnwys hyn ar gyfer dadansoddiad o'r adroddiad perfformiad yn y dyfodol.
- Gofynnodd y Panel a oedd unrhyw broblemau o ran cyflwyno'r ffurflen newydd ac a oedd yr adran yn fodlon arni. Clywodd fod y ffurflen wedi datblygu yn ôl y disgwyl a'i bod yn parhau i wneud hynny.
- Nododd y Panel nad oedd unrhyw sôn am lefelau staffio yn yr adroddiad, yn enwedig y nifer o staff asiantaeth. Hysbyswyd y Panel, yn ystod y cyfrif diwethaf roedd pedwar gweithiwr cymdeithasol asiantaeth ond byddent yn croesawu mwy ar hyn o bryd ac roeddent yn ceisio recriwtio dau arall.

Camau Gweithredu:

- Data i'w gynnwys wrth ddadansoddi'r adroddiad perfformiad yn y dyfodol - 'nifer y plant a ychwanegwyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant, o fewn 12 mis o datgofrestru, sydd wedi cael eu hailgofrestru dan yr un categori.'

## 6 Diweddaraf am y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol

Roedd Nichola Rogers, Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol, yn bresennol i friffio'r Panel ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau i'w trafod:

- Gofynnodd y Panel sut mae'r Gwasanaeth yn cynhyrchu incwm. Clywodd y Panel, yn ystod y pandemig roedd mwy o fabwysiadwyr ar y rhestr na phlant oedd ar gael. Roedd nifer o'r mabwysiadwyr wedi symud draw i gofrestr fabwysiadu ar gyfer Cymru ac yn chwilio am blant a oedd ar gael i'w mabwysiadu ar draws y DU. Roedd y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol wedi derbyn ffi leoliad ar gyfer y lleoliadau hynny.
- Gofynnodd y Panel beth yw ystyr atgyfeiriadau 'olrhain gefeilliaid' Hysbyswyd y Panel, pan mae awdurdod lleol yn penderfynu bod angen rhoi gweithdrefnau gofal ar waith a chwilio am y cynllun gorau ar gyfer y plentyn, os yw

mabwysiadu'n opsiwn tebygol byddant yn atyfeirio hyn i'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar y pwynt hwnnw. Nid yw pob rhanbarth yn gwneud hyn.

- Gofynnodd y Panel a oes digon o fabwysiadwyr ar hyn o bryd ar gyfer nifer y plant y mae angen eu mabwysiadu. Fe'i hysbyswyd bod gan y gwasanaeth gronfa o fabwysiadwyr sy'n aros, a thrwy'r prosiect cyfran y farchnad mae lleoliadau ychwanegol y gall eu defnyddio, felly eleni mae'n debygol o fod yn gyfartal.
- Nododd y Panel y gostyngiad yn nifer y cymeradwyaethau a gofynnodd a oedd hyn yn bryder. Clywodd ei fod yn bryder a'i fod wedi dod yn broblem genedlaethol. Bydd angen i'r Panel fonitro hwn.
- Gofynnodd y Panel am y sefyllfa bresennol o ran straeon bywyd. Clywodd fod Cymru'n gwneud gwelliannau yn y maes hwn. Yn rhanbarthol, datblygwyd tîm bach o fewn y gwasanaeth sy'n edrych ar y gwaith taith fywyd a gynigir i fabwysiadwyr.

## 7 Rhaglen Waith Drafft 2023-24

Trafododd a chytunodd y Panel ar ei gynllun gwaith ar gyfer 2023-24.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm